# De Cymru

Dyma Asesiad PEEL cyntaf Heddlu Dyfed-Powys. Wrth wneud yr asesiad hwn rwyf wedi defnyddio fy marn proffesiynol i ystyried y dystiolaeth sydd ar gael gan arolygiadau yr ymgymerwyd â nhw yn y 12 mis diwethaf.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu:

- o ran ei effeithiolrwydd, yn gyffredinol, mae'r llu'n dda ynghylch lleihau troseddau ac atal troseddu, yn dda ynghylch ymchwilio i droseddu ac yn dda ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gennyf rai pryderon penodol ynghylch ei ymagwedd tuag at gam-drin domestig;
- mae effeithlonrwydd y llu wrth gynnal ei gyfrifoldebau'n dda; ac
- mae'r llu'n gweithredu i gyflawni tegwch a chyfreithlondeb mewn rhai o'r arferion a archwiliwyd eleni.

**Dru Sharpling, Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi**

Cysylltwch â hi trwy swyddfa ranbarthol Cymru a'r Gorllewin

**Darllenwch ragor**

Wrth wneud yr Asesiad PEEL cyntaf hwn o Ddyfed-Powys rwyf wedi cymryd i gyfrif yr heriau sydd ynghlwm wrth blismona'r fath ardal fawr o Gymru.

Dyfed-Powys yw'r llu heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr o ran daearyddiaeth, ac mae'n gyfrifol am blismona dros hanner màs tir Cymru. Mae daearyddiaeth y llu'n cyflwyno heriau, â llawer o gymunedau gwledig anghysbell a nifer o ganolfannau bach o boblogaeth. Mae diwydiant twristiaeth bywiog yn tynnu niferoedd mawr o ymwelwyr at yr arfordir ym misoedd yr haf. Mae'r ardal yn gyrchfan boblogaidd i ymddeol iddi.

Rwyf wedi fy nharo gan y ffordd mae'r llu wedi dal i wneud cynnydd da ynghylch rheoli'r gostyngiad i gyllidebau ac yn cynllunio i ddarparu technoleg symudol gwell i'w swyddogion er mwyn eu galluogi i weithio'n fwy effeithlon. Er gwaethaf gwneud toriadau, mae'r llu'n dal i anfon swyddog i bob trosedd.

Roedd yr uned wrthderfysgaeth Cymru gyfan, a elwir WECTU, a'r cydweithrediad ynghylch troseddau difrifol a threfnedig , a elwir Tarian, yn drefniadau aeddfed ac effeithiol.

Hefyd mae'r llu wedi gweithio'n effeithiol i dorri troseddau, er bod gennyf bryderon ynghylch y gyfradd ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n uwch na'r un ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan. Er hynny, mae ymrwymiad ar bob lefel y llu i ddeall pryderon lleol a mynd i'r afael â nhw. Yn gyffredinol, goruchwylir arolygiadau'n dda.

Fodd bynnag, mae gennyf bryderon difrifol ynghylch ymagwedd y llu tuag at gofnodi troseddau, nad yw mor gywir ag y dylai fod.

Canfu'r arolygiad ar gam-drin domestig na allai'r llu fod yn hyderus ei fod yn adnabod dioddefwyr yn gyson ac yn asesu'r risg roeddynt yn ei hwynebu'n gywir ar y cyswllt cyntaf.

Ein bwriad yw archwilio arweiniad yn benodol fel rhan o Asesiadau PEEL y dyfodol, ar ôl i feini prawf gael eu sefydlu. Bydd hyn yn caniatáu inni gymryd i gyfrif adolygiad o arweiniad y Coleg Plismona sydd wrthi ar hyn o bryd.

Yn gyffredin â lluoedd eraill, mae angen datblygu dealltwriaeth well o'r galwadau newidiol am wasanaethau'r heddlu.

Rwyf â diddordeb mawr i weld sut bydd y llu'n ymateb i'r meysydd mae HMIC wedi'u nodi ar gyfer gwella dros y12 mis nesaf.

# Effeithiolrwydd

Pa mor dda mae'r llu'n mynd i'r afael â throseddau

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn dda ynghylch lleihau troseddau ac atal troseddu. Mae'r llu'n dda ynghylch ymchwilio i droseddu. Mae'n dda ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Darllenwch ragor**

Canfu HMIC fod Dyfed-Powys yn gweithio'n effeithiol i dorri troseddau. Mae lefelau troseddau yn yr ardal yn is na'r rhai hynny ledled Cymru a Lloegr gyfan, ac maent wedi disgyn ar gyfradd debyg i'r darlun cenedlaethol dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn uwch yn Nyfed-Powys nag yng Nghymru a Lloegr gyfan.

Mae mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth glir ac mae ymrwymiad ar bob lefel y llu i ddeall pryderon lleol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r llu'n gweithio'n dda gyda phartneriaid lleol i dorri troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i ddarparu cymorth i ddioddefwyr.

**Cipiau pellach ar effeithiolrwydd**

Canfu'r arolygiad gam-drin domestig y gallai'r cyhoedd fod yn hyderus bod Dyfed-Powys yn ymrwymedig i ddarparu ymateb da a gweithredu'n gadarn ynghylch tramgwyddwyr. Fodd bynnag, canfu'r arolygiad fod nifer o lwybrau gwahanol y gallai'r heddlu ddelio â digwyddiad o gam-drin domestig drwyddynt, a oedd yn peri dryswch ac yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am reoli'r risg, cynllunio diogelwch, cysylltu â dioddefwyr a'u goruchwylio.

Canfu'r arolygiad troseddau, er bod gan y llu asedau arbenigol i fynd i'r afael â grwpiau troseddau cyfundrefnol, fod yr holl staff yn deall bod ganddynt rôl i'w chwarae yma trwy gyflwyno cudd-wybodaeth a gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu'r gymuned.

**Cwestiynau ynghylch Effeithiolrwydd**

**Pa mor effeithiol mae'r llu ynghylch lleihau troseddau ac atal troseddu?**

Mae ardal llu Dyfed-Powys yn dal yn un â lefel o droseddau sy'n gymharol isel, ac mae troseddau wedi lleihau ar oddeutu'r un gyfradd â'r un ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r llu'n gwella ei ymagwedd at ddioddefwyr ac mae ymrwymiad gan yr arweinyddiaeth i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Mae'r llu'n cymryd camau i ddeall achosion anfodlonrwydd dioddefwyr yn well ac, er gwaethaf toriadau ariannol, mae'n dal yn ymrwymedig i anfon swyddog i fynychu pob trosedd.

Mae gan Ddyfed-Powys berthnasau gweithio da gyda phartneriaid i atal troseddau a lleihau troseddu, ac mae ganddo gynlluniau i ddatblugu'r rhain ymhellach.

**Da**

**Pa mor effeithiol mae'r llu ynghylch ymchwilio i droseddu?**

Mae Dyfed-Powys yn cydnabod y pwysigrwydd o ddarparu ymateb effeithiol i ddioddefwyr a nodi peryglon ar y cyswllt cyntaf. Mae ansawdd y cyswllt â dioddefwyr yn dda ar gyfer y dioddefwyr hynny a asesir fel rhai mewn perygl mawr, ond mae rhai anghysondebau o ran y ffordd mae dioddefwyr eraill yn cael eu trin.

Canfu HMIC fod yr ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn dda ar y cyfan a bod goruchwyliaeth yn dda. Mae ditectifs CID yn y llu'n cael eu hyfforddi a'u hachredu'n broffesiynol, ond mae'r hyfforddiant mewn ymchwiliadau ar gyfer swyddogion mewn iwnifform yn fwy cyfyng.

Mae rhywfaint o waith da ynghylch ymdrin â'r troseddwyr mwyaf cyson trwy ymagwedd gydgysylltiedig gyda phartneriaid, yn mynd i'r afael â'r troseddwyr hynny sy'n achosi'r risg fwyaf i'r cyhoedd er mwyn eu hatal rhag aildroseddu.

**Da**

**Pa mor effeithiol mae'r llu ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?**

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth strategol glir i Ddyfed-Powys ac mae'r staff yn ei ddeall yn dda.

Mae ymrwymiad clir ar bob lefel yn y llu i ddeall a mynd i'r afael â phryderon lleol.

Mae'r llu'n gweithio'n dda gyda phartneriaid lleol i rannu gwybodaeth a chanfod atebion cydgysylltiedig i broblemau ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae ffocws da ar ddeall a rheoli'r risg i ddioddefwyr a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol, a sicrhau eu bod yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt gan yr heddlu a phartneriaid..

**Da**

**Pa mor effeithiol mae'r llu ynghylch diogelu'r rhai hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu niweidio?**

Canfu'r arolygiad  cam-drin domestig y gallai'r cyhoedd fod yn hyderus bod Dyfed-Powys yn ymrwymedig i ddarparu ymateb dda a gweithredu'n gadarn ynghylch tramgwyddwyr. Fodd bynnag, canfu'r arolygiad bod nifer o lwybrau gwahanol y gallai'r heddlu ddelio â digwyddiad o gam-drin domestig drwyddynt, a oedd yn peri dryswch ac yn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am reoli'r risg, cynllunio diogelwch, cysylltu â dioddefwyr a'u goruchwylio. Roedd hyn yn

golygu na allai'r llu fod yn hyderus bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaeth oedd ei angen arnynt yn gyson.

Canfu'r arolygiad  troseddau dystiolaeth bod Dyfed-Powys wedi gwneud cynnydd da i wella ei ymateb i gam-drin domestig. Gweithredwyd yn gadarnhaol yn erbyn troseddwyr mewn canran uchel o achosion, a nododd yr arolygiad fod safonau uchel yn bodoli ynghylch ymchwilio a goruchwylio. Hefyd adolygodd yr arolygiad gynllun gweithredu cam-drin domestig Dyfed-Powys gan ganfod bod y llu wedi cynhyrchu cynllun i amlinellu gweithgarwch sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig. Nid oes unrhyw gyfeiriad uniongyrchol clir at yr argymhellion HMIC penodol ar gyfer y llu, er bod tystiolaeth o fewn y cynllun gweithredu yn manylu ar y gweithgarwch sy'n cael ei gynnal sy'n cefnogi'r hyn mae'r argymhellion hynny'n galw amdano.

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**

**Pa mor effeithiol mae'r llu ynghylch mynd i'r afael â throseddau difrifol, cyfundrefnol, a chymhleth?**

Canfu'r arolygiad troseddau, er bod gan y llu asedau arbenigol i fynd i'r afael â grwpiau throseddau cyfundrefnol, fod yr holl staff yn deall bod ganddynt rôl i'w chwarae yma trwy gyflwyno cudd-wybodaeth a gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu'r gymuned.

Canfu'r arolygiad gwerth am arian bod yr uned wrthderfysgaeth Cymru gyfan, a elwir WECTU, a'r cydweithrediad troseddau difrifol a chyfundrefnol, a elwir Tarian, yn drefniadau aeddfed ac effeithiol.

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**

**Pa mor effeithiol mae'r llu ynghylch cwrdd â'i ymrwymiadau dan y Gofyniad Plismona Strategol?**

Nid oedd arolygiad Gofyniad Plismona Strategol ar gyfer y llu hwn.

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**

## Effeithlonrwydd

Pa mor dda mae'r llu'n cyflawni gwerth am arian

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cwrdd â'r her ynghylch yr adolygiad gwariant ac erbyn hyn mae'n paratoi ar gyfer cyni pellach yn y dyfodol.

**Darllenwch ragor**

Mae Dyfed-Powys wedi parhau i wneud cynnydd da ynghylch rheoli'r gostyngiad i gyllidebau tra'n cynnal lefel dda o wasanaeth i'r cyhoedd. Mae'r llu ar y trywydd iawn i gwrdd â her yr adolygiad gwariant trwy arbedion a nodwyd. Mae wedi gwneud newidiadau i'r ffordd mae'n rheoli plismona, ac mae ganddo gynlluniau yn eu lle i wella cynhyrchiant swyddogaethau cymorth busnes ymhellach er mwyn helpu'r gweithrediad plismona i redeg yn fwy effeithiol. Hefyd mae'n bwriadu darparu technoleg symudol gwell i'w swyddogion i'w galluogi i weithio'n fwy effeithiol.

Mae'r llu wedi elwa o wynebu her ariannol llai na lluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr ac, â chytundeb y PCC, mae'n defnyddio ei gronfeydd yn 2015/16 i leddfu'r cyfnod pontio i strwythur newydd.

Mae'r llu'n edrych y tu hwnt i 2016 lle mae'r sefyllfa ariannol yn mynd yn fwy heriol.

Mae gwaith yn cynyddu i ddatblygu cynlluniau arbedion; mae ailstrwythuro swyddogaethau cymorth busnes a thechnoleg yn elfennau allweddol ynghylch sicrhau darpariaeth gynaliadwy o blismona yn y dyfodol.

Mae Dyfed-Powys yn ymwybodol o'r heriau ariannol hirdymor, ond mae'n elwa o alw isel ar adnoddau, cymorth gan y PCC i fuddsoddi cronfeydd a ffocws cryf ar gadw cymunedau'n ddiogel.

**Cwestiynau ynghylch Effeithlonrwydd**

### I ba raddau mae'r llu'n effeithlon?

Nid yw'r her ar gyfer Heddlu Dyfed Powys yn dod o'r gallu i reoli maint y galw, ond o orfod darparu galluogrwydd plismona llawn ar draws ardal ddaearyddol fawr iawn.

Cynhaliodd y llu broses gychwynnol o ailstrwythuro ar gychwyn cyfnod yr adolygiad gwariant a arweiniodd at arbedion o ran swyddi staff heddlu a rhengoedd uwch-swyddogion heddlu. Erbyn hyn mae'n coethi hyn ymhellach er mwyn gwella'r swyddogaethau cymorth busnes trwy'r rhaglen 'Cyhoedd yn Gyntaf'.

**Da**

**I ba raddau mae'r llu'n cymryd camau i sicrhau'r sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir?**

Mae gan Ddyfed-Powys gynlluniau yn eu lle a fydd, â'r defnydd o gronfeydd, yn cyflawni ei holl ofyniad arbedion i 2014/15.

Mae'r llu'n wynebu her lai anodd na rhai o'r lluoedd eraill gan ei fod yn elwa o dderbyn cyfran uwch o'i gyllid gan elfen heddlu'r dreth gyngor ac felly mae'n cael ei effeithio'n llai gan effaith toriadau'r llywodraeth ganolog ar yr heddlu.

Mae'r llu'n wynebu mwy o ansicrwydd ar gyfer 2016/17 a'r tu hwnt, ac nid yw ei gynlluniau ar gyfer hyn wedi'u datblygu mor dda. Mae gwaith yn cynyddu i ddatblygu opsiynau ar gyfer arbedion yn y dyfodol. Mae'r broses o ailstrwythuro'r ffordd mae swyddogaethau cymorth busnes yn gweithredu a mwy o ddefnydd o dechnoleg yn allweddol ynglŷn â hyn.

**Da**

**I ba raddau mae gan y llu ffordd fforddiadwy o ddarparu plismona?**

Mae'r llu wedi canolbwyntio ei arbedion ar staff heddlu, gan golli cyfran uwch na lluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn wedi caniatáu iddo ddiogelu niferoedd o swyddogion heddlu.

Mae'r llu'n bwriadu cael cyfran uwch o'i weithlu a swyddogion heddlu mewn rolau rheng flaen i ymladd yn erbyn troseddu na'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae'r llu'n dechrau gweithredu rhaglen newydd ar gyfer newid, 'Cyhoedd yn Gyntaf' sy'n anelu at wella'r gwasanaeth i'r cyhoedd trwy wneud defnydd gwell o adnoddau er mwyn cyfyngu ar doriadau ar blismona rheng flaen ac er mwyn buddsoddi mewn technoleg newydd i gynorthwyo swyddogion wrth iddynt wneud eu gwaith yn fwy effeithlon.

**Da**

## Cyfreithlondeb

A yw'r llu'n gweithredu ag uniondeb ac yn darparu gwasanaeth mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl?

Mae arweiniad clir gan y prif gwnstabl ar bwysigrwydd gwerthoedd, moeseg ac ymddygiad personol, a chanfu HMIC enghreifftiau da o unigolion yn herio ac adrodd ymddygiad anfoesegol ac amhroffesiynol gan gydweithwyr. Mae gan y llu adran safonau proffesiynol sefydledig, gan gynnwys uned gwrthlygredd. Fodd bynnag, nid oes gan y rhain ddigon o adnoddau sy'n golygu nad yw'r llu'n gallu ymchwilio i gamymddwyn a llygredd mewn modd amserol. Mae'r llu wedi gwneud cynnydd cyfyng ers yr arolygiad HMIC diwethaf.

**Darllenwch ragor**

### Cipolygon pellach ar gyfreithlondeb

Canfu'r Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (12 mis hyd at Fawrth 2013) fod y gyfran o ymatebwyr sy'n meddwl bod y llu'n gwneud gwaith ardderchog/da yn cyd-fynd ar y cyfan â'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr. Hefyd canfu'r un arolwg dros yr un cyfnod fod y gyfran sy'n cytuno bod y llu'n delio â phryderon lleol yn fwy na'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr. Canfu arolwg boddhad dioddefwyr y llu ei hunan (12 mis hyd at Fehefin 2014) fod y gyfran o ddioddefwyr a oedd yn fodlon ar eu profiad yn cyd-fynd ar y cyfan â'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr.

Canfu'r arolygiad uniondeb data troseddau fod trafodwyr galwadau'n gwrtais, cynorthwyol a phroffesiynol. Canfu'r arolygiad ar gam-drin domestig, er bod y llu'n ymrwymedig i adnabod dioddefwyr cam-drin domestig, fod gwendidau yn y prosesau a oedd yn bodoli, yn arbennig wrth asesu risg, ac adnabod dioddefwyr dychwel a hyglwyf. Canfu'r arolygiad na allai'r llu fod yn hyderus ei fod yn adnabod dioddefwyr yn gyson ac yn asesu'r risg roeddynt yn ei hwynebu'n gywir ar y cyswllt cyntaf.

O ganlyniad i'r arolygiad data troseddau, mae HMIC yn ddifrifol bryderus nad yw cyfran sylweddol o adroddiadau o droseddau'n cael eu cofnodi gan y llu. Mae hyn yn golygu nad yw dioddefwyr troseddau'n derbyn y gwasanaeth y dylent ei dderbyn pan ydynt yn adrodd trosedd yn y lle cyntaf.

Fodd bynnag, mae HMIC wedi'i daro gan gywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y llu wrth wneud penderfyniadau dim-trosedd (canslo trosedd a gofnodir), mae bron i bob un ohonynt yn gywir.

### Cwestiynau ynghylch Cyfreithlondeb

#### I ba raddau mae'r llu'n sicrhau bod y gweithlu'n gweithredu ag uniondeb?

Mae'r prif gwnstabl a'r dirprwy brif gwnstabl yn darparu arweinyddiaeth gref ac wedi egluro'r pwysigrwydd o newid diwylliannol i'r llu. Erbyn hyn mae 'gwneud y peth iawn' yn fantra a fabwysiadwyd gan yr holl sefydliad. Dylai'r llu wneud mwy i sicrhau bod

staff a swyddogion yn deall yn well sut y gallant herio a rheoli camymddwyn yn ymarferol. Mae'r llu'n deall pwysigrwydd y Cod Moeseg newydd ac mae barn frwdfrydig a ddelir gan uwch-reolwyr ei fod yn cynnig cyfle arwyddocaol i'r llu atgyfnerthu'r cynnydd mae eisoes wedi'i wneud ynghylch safonau.

Nid oes gan yr adran safonau proffesiynol ddigon o adnoddau i chwilio am ymddygiad amhroffesiynol mewn modd rhagweithiol ac nid yw'n cynnal ymchwiliadau amserol. Ar ben hynny, nid oes gan y capasiti a galluogrwydd gwrthlygredd ddigon o adnoddau. Mae ganddi drefniadau cyfyng yn eu lle i atal gweithrediadau mawr rhag gael eu peryglu gan y bygythiad o lygredd ac nid oes ganddi ddadansoddwr ac ymchwiliwr penodedig a hyfforddedig sydd, yn ei dro, yn rhwystro'r datblygiad o gudd-wybodaeth y gellir gweithredu arni.

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**

**Beth yw canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch y llu?**

Mae HMIC yn ystyried bod dwy ffynhonnell data sy'n rhoi cipolwg ar ganfyddiadau'r cyhoedd ynghylch eu heddlu: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, a'r Arolwg Boddhad Dioddefwyr.

Mae'r data ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn dangos:

Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (12 mis hyd at Fawrth 2013)

- mae 65 y cant o oedolion a arolygwyd yn ystyried bod yr heddlu'n gwneud gwaith ardderchog/da, sydd yn cyd-fynd ar y cyfan â'r ffigwr o 61 y cant ar gyfer Cymru a Lloegr.
- mae 70 y cant o oedolion a arolygwyd yn cytuno bod yr heddlu'n ymdrin â phryderon lleol, sy'n fwy na'r gyfran o 60 y cant ar gyfer Cymru a Lloegr.

Arolwg Boddhad Dioddefwyr (12 mis hyd at Fehefin 2014)

- roedd 86 y cant (± 2.6 y cant) o ddioddefwyr yn fodlon ar eu profiad sydd yn cyd-fynd ar y cyfan â'r ffigwr o 85 y cant ar gyfer Cymru a Lloegr (± 0.2 y cant).

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**

**I ba raddau mae'r llu'n ymateb yn briodol i alwadau am wasanaeth?**

Canfu'r arolygiad gwerth am arian fod y llu wedi gosod safon berfformiad glir ar gyfer amseroedd ymateb, ac mae hon wedi aros yr un peth ers 2010. Canfu'r arolygiad, yn ystod yr amser hwn, fod y gyfran o alwadau a fynychwyd o fewn y safonau hyn ar gyfer galwadau 'argyfwng' wedi disgyn, ond ei bod wedi gwella ar gyfer galwadau 'blaenoriaeth'.

Canfu'r arolygiad uniondeb data troseddau fod trafodwyr galwadau'n gwrtais, cynorthwyol a phroffesiynol. Hefyd canfu'r arolygiad fod y llu wedi cyflwyno cynllun a oedd yn galluogi unrhyw aelodau'r cyhoedd sy'n ei gael yn anodd siarad â'r heddlu ar y ffôn neu'n bersonol i ddarparu gwybodaeth bersonol berthnasol fel eu bod yn cael eu cefnogi ac yn derbyn gwasanaeth priodol.

Canfu'r arolygiad cam-drin domestig, er bod y llu'n ymrwymedig i adnabod dioddefwyr cam-drin domestig, fod gwendidau yn y prosesau a oedd yn eu lle, yn arbennig wrth asesu risg ac adnabod dioddefwyr dychwel a hyglwyf. Canfu'r arolygiad na allai'r llu fod yn hyderus ei fod yn adnabod dioddefwyr yn gyson ac yn asesu'r risg roeddynt yn ei hwynebu'n gywir ar y cyswllt cyntaf.

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**

**I ba raddau mae'r data a gwybodaeth a ddarperir gan y llu o ansawdd uchel?**

Archwiliodd yr arolygiad uniondeb data troseddau 109 o gofnodion digwyddiadau gan ganfod y dylai 73 o droseddau fod wedi cael eu cofnodi. O'r 73 o droseddau a ddylai fod wedi'u cofnodi, cofnodwyd 50. O'r 50, dosbarthwyd pedwar yn anghywir a chofnodwyd tri y tu allan i'r terfyn 72-awr a ganiateir o dan Reolau Cyfrif Y Swyddfa Gartref. Mae hyn yn peri pryder mawr: mae'n golygu nad yw rhai troseddau dioddefwyr yn cael eu cofnodi ac nad yw'r dioddefwyr hyn yn derbyn y gwasanaeth maent yn ei haeddu (oherwydd, er enghraifft, bod rhai gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn cael eu sbarduno pan gofnodir trosedd yn unig).

Archwiliodd HMIC 47 o gofnodion dim-trosedd gan ganfod bod 44 o gofnodion yn cydymffurfio ag NCRS ac HOCR. Mae hyn yn awgrymu bod y prosesau a weithredir gan y llu i sicrhau penderfyniadau dim-trosedd yn gywir a chadarn.

**Dim dyfarniad graddedig yn 2014**